

## **CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 13eg Medi, 2021**, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 8.35 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)  
Y Cyngorydd Gwenan Griffith (Is-Gadeiryddes)  
Y Cyngorwyr Elin Hughes, Ifor Owen, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams  
Ymddiheuriadau: Y Cyngorydd Carys H. Evans, Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

### **37. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** yr aelodau i'r cyfarfod.

### **38. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

### **39. CADARNHAU COFNODION**

**Cyflwynwyd** a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 13eg Medi, 2021. Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cyngorydd Glyn Roberts

**Hefyd cyflwynwyd** a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd 2ail Awst, 2021. Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Gwenan Griffith ac eilwyd gan Y Cyngorydd Ifor Owen.

#### **Mater yn codi – eitem 37 – Meddygfa Rhydbach, Botwnnog**

**Adroddodd** Y Cyngorydd Gwenan Griffith iddi hi, Y Cyngorydd Glyn Roberts, Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir) a'r Clarc gyfarfod Rheolwr y Feddygfa, Dr. O.G. Morris a dwy aelod o'r staff yn y Feddygfa ar 5ed Awst, 2021.

Ceisiwyd cyfleu wrth staff y Feddygfa bryderon y cleifion – e.e. y diffyg apwyntiadau, nodwyd yn gynnil fod y cleifion yn anhapus yn y modd mae rhai yn eu trin a byddai ychydig bach mwy o barch ac agosrwydd yn mynd ymhell; cyfeiriwyd at iechyd meddwl a'r pwysigrwydd fod yr afiechyd yma'n cael sylw.

Gofynnwyd yn benodol a oedd yna rhyw oleuni fod meddyg arall am gael ei benodi yn y dyfodol agos a'r atebiad oedd 'na' oherwydd prinder meddygon teulu. Cyfeiriwyd yn hyn o beth fod dau feddyg yn y Feddygfa 'nawr, 2 ANP, Fferyllydd yn dod i fewn ddwy waith yr wythnos. Gofynnod Dr. Morris os oedd rhywun yn gwybod am berson ifanc oedd yn dilyn cwrs meddygaeth am roddi gwybod iddo.

Holwyd ymhellach pam nad oedd y Feddygfa yn cael 'locum' i fewn a'r atebiad oedd fod meddygon o'r fath yn costio'n ddrud iawn – cyflog, costau teithio ac hefyd yr angen i gyfrannu at eu pensiwn.

Diolchwyd i'r rhai a fu yn y cyfarfod.

**Penderfynwyd** anfon unwaith yn rhagor at y Rheolwr gan ofyn i'r Feddygfa ystyried rhyddhau yr apwyntiadau yn raddol drwy'r dydd. Hefyd tynnu sylw unwaith yn rhagor at y modd mae rhai o'r staff yn ymdrin a'r cleifion.

Hefyd anfon at Mabon ap Gwynfor, yr Aelod Seneddol, yn amlinellu pryderon sydd ynglyn a Meddygfa Rhydbach ac os y gall gynorthwyo mewn unrhyw fodd.

### **40. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio.

41. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Penderfynwyd** tynnu sylw'r Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, at gyflwr gwael y ffordd o Graig Fael am Graig Ewig, Bryncroes.

42. **ARDAL NI 2035**

**Cyflwynwyd** e-bost a llythyr gan Swyddog Cefnogi Cymunedau –

**Penderfynwyd** anfon y ddwy ddogfen 'Cyflwyniad Ardal Ni 2035 – Pen Llyn' a 'Sut le ydi Pen Llyn' i bob aelod drwy e-bost ac fod y cyfryw i'w drafod yng nghyfarfod arbennig o'r Cyngor, os bydd adroddiad yr Archwilwyr i law, neu yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor.

43. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

44. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r talidau a ganlyn:

HMRC	£93.00
Y Clarc	£372.75
Cyngor Gwynedd – archwiliad mewnol	£186.00

45. **YMGYNGHORIAD AR DRETHI LLEOL AR GYFER AIL GARTREFI A LLETY HUNANARLWYO**

**Penderfynwyd** gohirio hyd y cyfarfod nesaf.

46. **DIWYGIO ETHOLIADOL**

**Ymateb** yn gwrthynebu'r bwriad i wneud etholaethau'n fwy.